

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul ar 12 Medi 2011**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 12 September 2011**

**Yn Bresennol/Present:** Cyng/Cllrs Mrs Eileen Curry (Cadeirydd/Chair) Douglas Davies Peter Davies Mrs Philippa Davies Keith Evans Wyn Evans Andrew Howell Philip Marchant a/and Mrs Carolyn Reed-Rees.

1 **Ymweliad – Camerâu CCTV/Fandaliaeth** – Cafwyd neges ffôn (heddiw) wrth **Gyng Gareth Williams** yn ymddiheuro na fyddai modd iddo fynychu, ac ni chafwyd manyleb/dyfybrisiau. Mynychodd **Pc Dafydd Jones** y cyfarfod ac unwaith eto, cadarnhaodd ei fod yn cefnogi'r camerâu CCTV a gynigiwyd ar gyfer Llandysul. Yn ogystal, cafwyd adroddiad gan Pc Dafydd Jones ynghylch fandaliaeth yn Llandysul, a nodwyd bod y troseddwyd wedi cael eu dal. Penderfynwyd rhoi camerâu CCTV ar Agenda y cyfarfod nesaf a bydd y clerc yn anfon y manyleb ymlaen at Gynghorwyr ar ôl iddi ei chael/**Visit – CCTV Cameras/Vandalism** – A telephone message apologising for not being able to attend was received today from **Cllr Gareth Williams** and specification/quotes had not been received. **Pc Dafydd Jones** attended the meeting and again confirmed his support for the proposed CCTV cameras for Llandysul. Pc Dafydd Jones also gave a report on vandalism at Llandysul and the recent offenders have been caught. It was decided to place CCTV cameras on the Agenda for the next meeting and the clerk will forward the specification to Councillors on receipt.

2 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies were received from:- Cyng/Cllrs Richard Anwyl Tom Cowcher Beth Davies Terry Griffiths a/and Breian Teifi.

3 **Datgelu Buddiannau Declarations of Interest:-** Gadawodd y Cynghorwyr perthnasol yr ystafell yn ystod y drafodaeth/relevant Councillors left the room during the discussion. Llandysul Family Centre – Cyng/Cllrs Mrs Philippa Davies Keith Evans a/and Andrew Howell. Neuadd Pontsian Hall – Cyng/Cllr Mrs Philippa Davies. Ieuenctid Tysul Youth - Cyng/Cllr Andrew Howell. Cymdeithas Ysgol Tregroes – Cyng/Cllr Peter Davies (ond ni adawodd yr ystafell/but did not leave the room).

4 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2011 yn gywir, yn unol a diwygiad, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd/Minutes of monthly meeting held on 11 July 2011 were accepted as correct, subject to an amendment and signed by the Chair.

5 **Materion yn Codi** – Dylai Cofnodion mis Gorffennaf dan “7 a)” Gorfodi Parcio Sifil – Cyngor Sir Ceredigion – ddarllen “Cawsom ein hysbysu o'r ffaith bod y cam o drosglwyddo pwerau o'r Heddlu i'r Cyngor o dan sylw, a nodwyd a derbyniwyd hynny” ac fe'i ddiwygiwyd. Cafwyd adroddiad byr gan Gyng Mrs Eileen Curry ynghylch yr Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio yn Etholaeth Seneddol Ceredigion – Cynigion Drafft a Chynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin.

5 **Matters Arising** – The July Minutes under “7 a)” Civil Parking Enforcement – Ceredigion County Council – should read “We were notified that the transfer of powers from the Police to the Council is being considered and was noted and accepted” and was amended. Cllr Mrs Eileen Curry gave a brief report on the Review of Polling Districts, Polling Places and Polling Stations in the Ceredigion Parliamentary Constituency – Draft Proposals and the Carmarthenshire Local Development Plan.

6 **Rhoddion** – (Datgelwyd buddiannau fel y nodir uchod)

(i) **Cymdeithas Ysgol Tre-groes a'r Cylch** – Cafwyd anfonebau am y gwaith o ddymchwel yr hen Neuadd a rhoddwyd siec er mwyn talu'r grant o £4,500 a gymeradwywyd.

(ii) **Carnifal Llandysul** – Cafwyd anfonebau a rhoddwyd siec er mwyn talu'r grant o £500 a gymeradwywyd. Yn ogystal, cafwyd gwahoddiad i gynrychiolydd fynychu tafarn Half Moon ar 7 Medi 2011 i gael lluniaeth ysgafn. Adroddodd Cyng Andrew Howell ei fod wedi mynychu a bod sieciau wedi cael eu cyflwyno i fudiadau ac elusennau lleol.

(iii) **Sioe Pren-gwyn** – Cafwyd anfonebau a rhoddwyd siec er mwyn talu'r grant o £300 a gymeradwywyd. Cafwyd 2 docyn i'r sioe.

(iv) **Sioe Llandysul** – Cafwyd anfonebau a rhoddwyd siec er mwyn talu'r grant o £500 a gymeradwywyd. Cafwyd 2 Docyn ac er gwaethaf y tywydd, bu'r diwrnod yn un llwyddiannus.

(v) **Canolfan Deuluoedd Llandysul** – Gofynnwyd i ni am rodd o £910 er mwyn cyflwyno Rhaglen Bwyta'n Iach a Llyfr Ryseitiau. Cynigwyd gan Gyng Wyn Evans ein bod yn cytuno mewn egwyddor i roi rhodd o £910, eiliwyd hyn gan Gyng Philip Marchant ac fe'i derbyniwyd. Penderfynwyd gofyn am gadarnhad y bydd y prosiect hwn yn cael ei hysbysebu mewn ffordd ddigonol.

(vi) **Eglwys Tre-groes** – Gofynnwyd i ni am rodd o £5,000 tuag at y gwaith i drwsio'r to. Ni chafwyd y wybodaeth y gofynnwyd amdani ac a ddylai gyd-fynd gyda'r ffurflen cais am grant ac roedd y Clerc wedi eu hysbysu na fyddai modd i ni drafod eu cais nes byddai gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu. Penderfynwyd ystyried cefnogi'r cais mewn egwyddor gan aros am wybodaeth bellach lle byddai rhagor o ystyriaeth yn cael ei rhoi gyda'r holl wybodaeth a dderbynnir mewn golwg.

6 **Donations** – (Declaration of interest as above)

(i) **Tregroes School and District Association** – Supporting invoices were received re demolition of the old Hall and cheque issued in payment for the approved grant of £4,500.

(ii) **Llandysul Carnival** – Supporting invoices were received and cheque issued in payment for the approved grant of £500. An invitation was also received for a representative to attend Half Moon on 7 September 2011 for light refreshments. Cllr Andrew Howell reported that he had attended and cheques were issued to local organisations and charities.

(iii) **Prengwyn Show** – Supporting invoices were received and cheque issued in payment for the approved grant of £300. 2 tickets to the show were received.

(iv) **Llandysul Show** – Supporting invoices were received and cheque issued in payment for the approved grant of £500. 2 Tickets were received and despite the weather had been successful.

(v) **Llandysul Family Centre** – We were asked for a donation of £910 in connection with the introduction of a Healthy Eating Programme and Recipe Book. Cllr Wyn Evans proposed that we agree in principle to give a donation of £910, this was seconded by Cllr Philip Marchant and carried. It was decided to request confirmation that this project is sufficiently advertised.

(vi) **Eglwys Tregroes Church** – We were asked for a donation of £5,000 towards repair work to be carried out on the roof. The requested information which should accompany the grant application form was not received and the Clerk had advised them that we would not be able to discuss their application until sufficient information is received. It was decided to consider supporting in principle pending further information at which time further consideration would be given in view of all the information received.

### **Rhoddion - Parhad**

(vii) **Neuadd Pont-siân** – Gofynnwyd i ni am rodd o £10,000 ar gyfer gwaith adnewyddu. Penderfynwyd cefnogi'r cais mewn egwyddor, ond bod yn rhaid i ni gael manylion ynghylch y dyfynbrisiau cyn ystyried swm. Penderfynwyd hefyd i gadarnhau ein cefnogaeth mewn perthynas â cheisiadau eraill y maent yn eu gwneud am grantiau.

(viii) Cafwyd **Cydnabyddiaeth Derby Rhoddion** wrth Y Garthen a Llandysul a Phontweli Ymlaen ynghylch yr Ŵyl Fwyd, ynghyd â gwahoddiad i fynychu Gŵyl yr Afon. Bydd Logo'r Cyngor Cymuned yn ymddangos ar daflenni gwybodaeth y Bws Cymunedol ac ar hyn o bryd, maent yn gwneud paratodau er mwyn casglu pobl a'u cludo i Landysul unwaith yr wythnos.

(ix) Anfonwyd **ffurflenni cais am grant** ymlaen at Eglwys Pont-siân, Shelter Cymru, Cymorth i Ddiodefwyr a Chanolfan Therapi Ocsigen Aberteifi Cyf.

**7 Cyngor Cymuned – Bancio** – O ystyried y ffaith bod Banc HSBC yn Llandysul i gau'n sydyn, gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i agor cyfrif gyda Nat West, Llandysul. Anfonir llythyr at HSBC yn mynegi ein siom.

**8 Adolygiad o'r Gyllideb hyd yn hyn** – Adolygwyd y gyllideb hyd yn hyn gan y Cyngor.

**9 CAVO** – Adroddiad am y Cyfarfod ynghylch Trafnidiaeth – Yn absenoldeb Cyng Tom Cowcher, penderfynwyd rhoi'r mater ar yr Agenda nesaf.

**10 Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf/Biniau Halen** – Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi mynychu'r cyfarfod ym Mhenmorfa. Roedd Meini Prawf Asesu a chadarnhad o'r prisiau wedi cyrraedd erbyn hyn, ac fe'u dosbarthwyd. Rydym yn aros o hyd am ymateb U Ll C ynghylch yswiriant. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i Gynghorwyr Douglas Davies, Wyn Evans ac Andrew Howell i gyfarfod a thrafod lleoliadau posibl er mwyn storio halen, a chontractwyr lleol sydd ar gael er mwyn llenwi'r biniau. Byddant yn adrodd yn ôl i'r Clerc, a fydd yn gofyn am ddyfynbrisiau er mwyn cynnal trafodaeth bellach ynghylch y mater yn ystod y cyfarfod nesaf.

### **Donations Continued.../**

(vii) **Neuadd Pontsian Hall** – We were asked for a donation of £10,000 for renovation work. It was decided to agree in principle to support but await details of the quotes before considering an amount. It was also decided to confirm our support in respect of other grant applications they are making.

(viii) **Acknowledgement of Receipt of Donations** were received from Y Garthen and Llandysul a Phontweli Ymlaen re Food Festival together with an invitation to attend the River Festival. Community Council Logo will appear on the information leaflets for the Community Bus and are currently making preparations to collect people once a week to come in to Llandysul.

(ix) **Grant application forms** have been forwarded to Eglwys Pontsian Church, Shelter Cymru, Victim Support and Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd.

**7 Community Council – Banking** – In view of the fact that HSBC Bank at Llandysul is to close suddenly, it was unanimously decided to open an account with Nat West, Llandysul. A letter to be forwarded to HSBC expressing disappointment.

**8 Review of Budget to date** – The budget to date was reviewed by the Council.

**9 CAVO** – Report on Transport Meeting - In the absence of Cllr Tom Cowcher it was decided to place the matter on the next Agenda.

**10 Winter Maintenance/Salt Bins** – Chair and Clerk had attended the meeting at Penmorfa. Assessment Criteria together with confirmation of prices has now been received and circulated. We continue to wait for the response from OVW regarding insurance cover. Delegated authority was given to Cllrs Douglas Davies, Wyn Evans and Andrew Howell to meet to discuss possible locations for storage of salt and local contractors that are available to fill the bins. They are to revert back to the Clerk who will then request quotes for further discussion at the next meeting.

## **10 Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf/Biniau Halen** - parhad

Cafwyd gwybod bod Ceredigion wedi cymeradwyo ein cais iddynt leoli bin gerllaw Heol Ifor, Llanfihangel-ar-arth a bod ceisiadau i osod biniau ym Maesymeillion ac yng Nghapel Dewi wedi cael eu gwrthod.

### **11 Gohebiaeth**

a) Cafwyd y canlynol wrth **Geredigion**:-  
Cyfarfod – Cafwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr gyfarfod gydag Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd Keith Evans a'r Prif Weithredwr, Miss Bronwen Morgan yng Nghanolfan Ieuencid Tysul am 7.00pm ar nos Iau 27 Hydref 2011. Dylid anfon cwestiynau ymlaen cyn y cyfarfod a bydd hyn yn cael ei gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Hydref. Safon torri cloddiau i'w drafod. Adolygu Gwasanaethau Cynllunio – Penderfynwyd cydnabod ein bod wedi derbyn hwn a gofyn am fersiynau electronig o Geisiadau Cynllunio a Hysbysiadau Cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygiad er mwyn treialu'r trefniant hwn. Cynnal a Chadw Priffyrdd yn ystod y Gaeaf – Biniau Halen /Graean – Gweler “10” uchod. Cafwyd hysbysiad ynghylch Gorchmynion Diogelu Coed – Heol Llynnyfran, Llandysul. Gorchmynion Diogelu Coed i'w drafod yn y cyfarfod i'w gynnal ar 27 Hydref 2011 (uchod). Gwaredu Colofnau Lampau - Bydd dwy golofn yn cael eu gwaredu (a'u disodli) am resymau yn ymwneud â diogelwch ar y stryd fawr a gerllaw Spring Gardens. Cafwyd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: ymgynghoriad ynghylch Cyflwyniadau i Neilltuo Safleoedd Ychwanegol ac wedi'u Cywiro (Gorffennaf 2011). Cafwyd Cynllun Diogelwch Cymunedol 2011 – 14. Mae Ceredigion wedi mabwysiadu'r Golau Stryd ym Mrynhyfryd Maesymeillion erbyn hyn. Grant Torri Prysgwydd – Cafwyd nodyn i'n hatgoffa i anfon yr anfonebau torri prysgwydd ymlaen a thalwyd grant o £268.92 i mewn i'r banc. Digwyddiadau a gynhelir ar y Briffordd – Gofynnwyd i ni am fanylion digwyddiadau. Adroddwyd na fwriedir cynnal unrhyw ddigwyddiadau ar y briffordd. Cronfa Adnewyddu Pentrefi Cynghorau Tref a Chymuned Ceredigion – I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

**10 Winter Maintenance/Salt Bins** - continued  
 Approval was received from Ceredigion to our request for them to site a bin near Heol Ifor, Llanfihangel-ar-Arth and refusal for bins at Maesymeillion and Capel Dewi were received.

### **11 Correspondence**

a) The following were received from **Ceredigion**:- Meeting - An invitation was received for representatives to meet with the Leader of the Council, Councillor Keith Evans and Chief Executive Miss Bronwen Morgan at Canolfan Ieuencid Tysul Youth Centre at 7.00pm on Thursday 27 October 2011. Questions to be forwarded prior to the meeting and is to be placed on the October Agenda. Standard of hedge cutting to be discussed. Review of Planning Services – It was decided to acknowledge receipt and request electronic Planning Applications and Notice of Development Control Committee Meeting on a trial basis. Highway Winter Maintenance – Salt/Grit Bins – See “10” above. Notice of Tree Preservation Orders – Llynnyfran Road, Llandysul was received. Preservation Orders to be discussed at the meeting to be held on 27 October 2011 (above). Lamp Column Removal - Two columns are to be removed (and replaced) for safety reasons on main street and near Spring Gardens. Ceredigion Local Development Plan: Additional and Corrected Site Allocation Representations consultation (July 2011) was received. Community Safety Plan 2011 – 14 was received. Street Light at Brynhyfryd Maesymeillion has now been adopted by Ceredigion. Brush Cutting Grant – Reminder was received to forward invoices for brush cutting and grant of £268.92 has been paid into the bank. Events on the Public Highway – We were asked for details of events. It was reported that it is not scheduled to hold any events on the highway. Ceredigion Community and Town Councils Village Renewal Fund – To be discussed during the next meeting.

- b) **ULIC** – Cafwyd derbynneb ynghylch y Gynhadledd a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ar 8 Hydref 2011, bydd Cyng Andrew Howell yn mynychu. Dathliadau Coelcerthi y Jiwbilî Diemwnt ar 4 Mehefin 2012 – penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen at Gyng Tom Cowcher. Cafwyd gwybodaeth ynghylch Bod yn Gynghorydd 2012. Cafwyd gwybodaeth ynghylch Digwyddiadau am ddim yn ymwneud â gweithredu egwyddorion. Hyfforddiant a Datblygiad ULIC – Cafwyd amserlen ac fe'i dosbarthwyd i bawb.
- c) **CAVO** – Cafwyd hysbysiad o'r ffaith y cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 22.9.2011 yn Llanfarian. Neuadd Bentref – Cafwyd gwybodaeth ynghylch datblygu a'r grantiau posibl sydd ar gael.
- d) **Mark Williams AS** – Gwylwyr y Glannau Aberdaugleddau – Cafwyd cadarnhad na fydd gorsaf gwylwyr y glannau yn cau.
- e) **Panel Annibynnol Cymru ar Gvdyddiaeth Ariannol** – Mae Adroddiad Blynyddol Drafft 2012/3 ar gael ar y wefan.
- f) **Cymdeithas Arddwriaethol Frenhinol** – Cafwyd gohebiaeth.
- g) **Bwrdd Iechyd Hywel Dda** – Siarad Iechyd – Cawsom ein hysbysu o'r gwaith ad-drefnu sylweddol a fydd yn digwydd ym maes darparu gwasanaethau. Estynnir gwahoddiad i bawb gymryd rhan.
- h) **RAY Ceredigion** – Cafwyd gwybodaeth am Brosiect Chwarae Plant. Bydd cynrychiolydd yn mynychu ein cyfarfod ym mis Hydref.
- i) **Ieuentid Tysul** - “Celf yn y Parc” – Bydd cynrychiolydd yn mynychu ein cyfarfod ym mis Hydref.
- (j) **SLCC** – Cafwyd gohebiaeth
- (k) **Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru** – Cafwyd gwahoddiad i fynychu cyfarfod a gynhalwyd ar 25 Awst 2011 yn Llanbedr Pont Steffan, ynghyd â gwahoddiad i fynychu Diwrnod Drysau Agored yn Hen Gapel Llwynrhydowen ar 18 Medi 2011.
- (l) **Tai Canolbarth Cymru** – Cafwyd Adroddiad Blynyddol 2011.
- (m) Cafwyd **Clerks & Councils Direct**.
- (n) Cafwyd cylchgrawn **The Clerk**.
- b) **OVW** – Receipt re Conference and AGM to be held on 8<sup>th</sup> October 2011 was received, Cllr Andrew Howell will be attending. Diamond Jubilee Beacon Celebrations on 4<sup>th</sup> June 2012 – it was decided to forward the information to Cllr Tom Cowcher. Information was received re Being a Councillor 2012. Information re Free Principles into practice events was received. OVW Training and Development – Schedule was received and circulated to all.
- c) **CAVO** – Notice of AGM to be held on 22.9.2011 at Llanfarian was received. Village Hall – Information was received re development and possible grants available.
- d) **Mark Williams MP** – Milford Haven Coastguard – Confirmation was received that the coastguard station will remain open.
- e) **Independent Remuneration Panel for Wales** – Draft Annual Report for 2012/3 is available on the website.
- f) **Royal Horticultural Society** – Correspondence was received.
- g) **Hywel Dda Health Board** – Talking Health – We were informed of the major reorganisation of the delivery of services. All are invited to participate.
- h) **RAY Ceredigion** – Information was received re Child’s Play Project. A representative will be attending our October meeting.
- i) **Ieuentid Tysul Youth** - “Art in the Park” – A representative will be attending the October meeting.
- (j) **SLCC** – Correspondence was received
- (k) **Welsh Religious Buildings Trust** – Invitation was received to a meeting held on 25 August 2011 at Lampeter together with an invitation to an Open Doors Day at the Old Llwynrhydowen Chapel on 18 September 2011.
- (l) **Mid-Wales Housing** – Annual Report 2011 was received.
- (m) **Clerks & Councils Direct** was received.
- (n) **The Clerk** magazine was received.

**o) Anfonebau –**

- (i) **Llinos Jones** – Bydd y ffi am gyfieithu ym mis Gorffennaf yn cael ei hychwanegu i anfoneb mis Medi.
- (ii) **Mr R J Foulkes** – Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 30 Mehefin 2011 wedi cael eu harchwilio ac y canfuwyd eu bod yn gywir, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd, a derbyniwyd y dylid rhoi siec i dalu'r ffi o £25. Yn ogystal, roedd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees, fel y gwiriwr mewnol, wedi archwilio'r cyfrifon.
- (iii) **Farmyard Nurseries** – Cafwyd anfonebau am y blodau ar gyfer 2010 a 2011, ynghyd ag anfoneb am y gwaith plannu ar gyfer gaeaf 2010/11, a oedd yn rhoi cyfanswm o £3,073.90, a derbyniwyd y dylid eu talu.
- (iv) **Abacus** – Cafwyd adroddiad ac anfoneb o £243.25 am lanhau'r llochesau bws. Mae pibell ddŵr y lloches bws gerllaw mynedfa ystad y Ffawydd wedi torri unwaith eto, a phenderfynwyd peidio'i thrwsio ar yr adeg hon.

**12 Maesymeillion – Cynllun Carthffosiaeth** – Mae preswylwyr ym Maesymeillion yn parhau i ofyn am Gynllun Carthffosiaeth. Penderfynwyd anfon llythyr ar eu rhan er mwyn gwneud ymholiadau pellach.

**13 Glanhau'r Strydoedd yn Llandysul** – Cafwyd neges e-bost heddiw wrth Mr Haydn Williams yn cadarnhau ei fod wedi rhoi cyfarwyddiadau y dylid glanhau strydoedd Llandysul.

**14 Ciosgau Coch** – Adroddodd Cyng Mrs Eileen Curry ei bod wedi cyfarfod gyda Nerys Lewis, cynrychiolydd Ceredigion, sy'n frwdfrydig iawn i ddatblygu Ciosgau Coch er mwyn darparu gwybodaeth ac ati. Cawsom ein hysbysu o'r ffaith bod grantiau ar gael efallai, gan gynnwys Cynnal y Cardi – Cymunedau Cynaliadwy Creadigol – Penderfynwyd estyn gwahoddiad i gynrychiolydd fynychu cyfarfod y cyngor ym mis Tachwedd.

**15 Tarianau** – Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i archebu 10 tarian am y swm o £24.60, a taw a'r pris postio.

**16 Polion BT gerllaw Dolwallter** – Bydd llythyr dilynol pellach yn cael ei anfon.

**(o) Invoices –**

- (i) **Llinos Jones** – Fee for translating for July will be added to the September invoice.
- (ii) **Mr R J Foulkes** – Confirmation was received that the accounts as at 30 June 2011 have been examined and found to be correct on the information provided and cheque passed in payment for the fee of £25. Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees as internal checker has also checked the accounts.
- (iii) **Farmyard Nurseries** – Invoices for flowers were received for 2010 and 2011 together with winter planting 2010/11, a total of £3,073.90 and passed for payment.
- (iv) **Abacus** – Invoice and report for cleaning of bus shelters was received in the sum of £243.25 together with a report. Downpipe for rainwater on the bus shelter at Beeches entrance is again broken, it was decided not to repair it this time.

**12 Maesymeillion – Sewerage Scheme** – Residents at Maesymeillion continue to request a Sewerage Scheme. It was decided to send a letter on their behalf to enquire further.

**13 Street Cleaning at Llandysul** – Email was received today from Mr Haydn Williams confirming that he has issued instructions to arrange a concentrated clean of Llandysul.

**14 Red Kiosks** – Cllr Mrs Eileen Curry reported that she has met with Nerys Lewis representative from Ceredigion who is very enthusiastic about the development of Red Kiosks for information etc. We were informed that grants are possibly available to include Cynnal y Cardi - Creative Sustainable Communities – It was decided to invite a representative to the November meeting.

**15 Shields** – It was unanimously decided to order a further 10 shields at the sum of £24.60 plus vat and postage.

**16 BT Poles near Dolwallter** – Further follow up letter to be forwarded.

**17 Baw Cŵn** – Nid oes gan Ymddiriedolwyr y Parc na'r Gymdeithas Chwaraeon unrhyw wrthwynebiad i'r cam o osod arwyddion llachar newydd. Bydd y clerc yn gwneud ymholiadau am arwyddion gyda Ceredigion.

**18 Gwobr y Gymuned** – Atgoffwyd yr aelodau o'r ffaith mai diwedd mis Medi yw'r dyddiad cau.

**19 Pobl Ifanc yn y Gymuned – Meini Prawf.** Bydd hwn yn cael ei roi ar yr Agenda nesaf.

**20 Datblygiadau Blodau yn Llandysul** – Bydd yr eitem hon yn aros ar yr Agenda.

**21 Goleuadau Nadolig Llandysul** – Cynhelir ymweliad safle cyn bo hir ynghylch y datblygiadau. Penderfynwyd cadw at y trefniant a wnaethpwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynghylch cynnal a chadw ac ati ar gyfer Nadolig 2011, a bydd llythyr yn nodi'r cyfarwyddiadau yn cael ei anfon ymlaen at Derwen Lighting Ltd.

**22 Cinio Blynyddol** – Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd cynnal y Cinio Blynyddol ar Ddydd Gŵyl Dewi, a bydd yr eitem hon yn cael ei rhoi ar Agenda cyfarfod mis Ionawr.

**23 Cynllunio:** Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad i'w gynnal ar 14 Medi, 2011.

Archwiliwyd a chymeradwywyd y cynlluniau Canlynol (dan awdurdod dirprwyedig):-  
Hazevern Court, Croes-lan - Addasu Cytundeb Adran 106 er mwyn rhyddhau 84 erw o'r tir.  
Blaenllain, Tre-groes - Adnewyddu, estyniad a mynediad i gerbydau (ail-gyflwyniad)  
Derwenfa, Heol Pren-gwyn, Llandysul - gwaith trin carthion a wal  
Cribor Fach, Pontsian - Adeilad amaethyddol arfaethedig ac adeilad amaethyddol.

**Cymeradwyaeth Gynllunio:-**

Ysgol Dyffryn Teifi - Disodli 2 ystafell ddosbarth Symudol.  
Fferm Rhydowen - Adeilad amaethyddol.  
Glyn-yr-Afon, Rhydowen – Estyniad.

**17 Dog Fouling** – Park Trustees and Cymdeithas Chwaraeon have no objection to the siting of new illuminative signs. The Clerk will make enquiries with Ceredigion re signs.

**18 Community Award** – Members were reminded that the closing date is end of September.

**19 Young People in the Community – Criteria** to be placed on the next Agenda.

**20 Developments of Llandysul Flowers** – To remain on the Agenda.

**21 Llandysul Xmas Lighting** – Site meeting is due to take place shortly re development. It was decided to keep to recent years' arrangement for maintenance etc for Christmas 2011 and letter of instructions is to be forwarded to Derwen Lighting Ltd.

**22 Annual Dinner** – Chair requested that the Annual Dinner is held on St David's day and is to be placed on the Agenda for January.

**23 Planning:** Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 14 September, 2011 was received.

The following plans were inspected and approved (under delegated authority):-  
Hazevern Court, Croeslan – Modification of Section 106 Agreement to release 84 acres of the land.  
Blaenllain, Tregroes – Renovation, extension and vehicular access (re-submission)  
Derwenfa, Prengwyn Road, Llandysul – sewage treatment plant and wall.  
Cribor Fach, Pontsian – Proposed agricultural building and agricultural building.

**Planning Approval:-**

Ysgol Dyffryn Teifi – Replacement of 2 demountable classrooms  
Rhydowen Farm – Agricultural building.  
Glyn-yr-Afon, Rhydowen – Extension.